

## Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Digartrefedd 2018-2022

Mae'r Strategaeth Digartrefedd yn nodi nod ac amcanion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid i fynd i'r afael â digartrefedd.

Nod y Strategaeth Digartrefedd:

*“Cydwethio ar sail gorfforaethol gyda phartneriaid allanol, a defnyddwyr gwasanaethau, mewn modd ymatebol, creadigol ac amserol i atal a lleddfu digartrefedd ledled y fwrdeistref sirol, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at lety addas, gyda'r cymorth y mae'i angen i ddiwallu eu hanghenion”.*

Amcanion y Strategaeth Digartrefedd:

**Amcan 1** - Gwella cydwethio rhwng sefydliadau allanol

**Amcan 2** - Gwella cydwethio rhwng y swyddogaethau statudol yn yr Awdurdod Lleol.

**Amcan 3** - Gwella trefniadau gweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i hwyluso cydwethrediad yn unol ag Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014.

**Amcan 4** - Gwella sut y mae pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael mynediad at wasanaethau.

**Amcan 5** - Gwella hygyrchedd ac argaeledd opsiynau cymorth a llety i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau.

**Amcan 6** – Cefnogi Pobl sy'n Cysgu Allan a mynd i'r afael â'r angen i gysgu allan

**Amcan 1: Gwella cydweithio rhwng sefydliadau allanol**

1.1 Creu fforwm / fforymau lle gall partneriaid allweddol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid preifat a'r trydydd sector, amlygu heriau, cyfleoedd a chynllunio'r ddarpariaeth.

1.2 Cydgynhyrchu llwybrau clir y mae'n hawdd i sefydliadau a defnyddwyr gwasanaethau ddod o hyd i'w ffordd arnynt, lle ceir eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau

		Erbyn Pryd	Gweithgaredd	Canlyniad
1.1		Mehefin 2020 yn barhaus Chwarterol yn barhaus	Ailfodelu'r fforwm Cefnogi Pobl a Digartrefedd. Ymgysylltu'n barhaus gyda Defnyddwyr Gwasanaethau, ymgynghori, adborth ar wasanaethau cyfredol a chanfod bylchau mewn gwasanaethau Parhau â Fforwm chwarterol Landlordiaid y Sector Rhentu Preifat. Canfod rhwystrau i ymgysylltu ag atal digartrefedd.	Gwella gwasanaethau atal digartrefedd a chynyddu ymwybyddiaeth o ddigartrefedd  Gwella gwasanaethau atal digartrefedd Codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd. Cynyddu'r cyflenwad o lety rhent preifat.  Codi ymwybyddiaeth o faterion digartrefedd. Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gydweithredu o ran atal digartrefedd.
1.2		Mawrth 2020  Yn barhaus  Yn barhaus	Rhoi'r canfyddiadau a'r llwybr sy'n deillio o adolygiad annibynnol o bobl ifanc 16/17 oed sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref ar waith a datblygu protocol ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Tai  Monitro effaith Llwybr Carcharorion Llywodraeth Cymru a defnyddio'r Grant Cymorth Tai i barhau i ariannu gwasanaeth penodol i roi cymorth i garcharorion.  Ymateb i unrhyw newidiadau a roddir ar waith gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â newid blaenoriaethau a gweithio gydag asiantaethau partner i  Gweithredu a chefnogi prosiectau'r 3 <sup>ydd</sup> sector i ymdrin â phobl ifanc gymhleth ac agored i niwed	Lleihau digartrefedd ieuencid. Lleihau'r ddibyniaeth ar yr holl wasanaethau statudol trwy atal digartrefedd cyn-droseddwyr.

			Ymgysylltu â chydweithwyr ym Mhwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	
<p><b>Amcan 2 Gwella cydweithio rhwng y swyddogaethau statudol yn yr Awdurdod Lleol</b></p> <p>2.1 Galluogi swyddogaethau statudol yr Awdurdod Lleol e.e. Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg i gwrdd yn fwy rheolaidd gan amcanu at sicrhau dull ar draws y Cyngor cyfan o atal a lleddfu digartrefedd</p> <p>2.2 Sicrhau bod ymrwymiad i drechu digartrefedd wedi'i gorffori'n benodol ym mhob cynllun statudol, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig</p>				
2.1		Mehefin 2020	Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid mewnol i ganfod meysydd ar gyfer cydweithio ac egwyddorion wedi'u cydgynhyrchu	Ymgorffori egwyddorion wedi'u cydgynhyrchu fel rhan o ddarparu gwasanaethau i sicrhau bof pobl yn cael ymyriad cynnar gan bob gwasanaeth. Cynyddu'r opsiynau o ran cymorth i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd Cynyddu ymwybyddiaeth a'i gwneud yn bosibl ymyrryd yn gynnar
2.2		Mehefin 2020	Sicrhau bod yr ymrwymiad yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor.  Ymgynghori â'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chael cytundeb ganddynt i adnabod a chytuno ar gamau gweithredu/dangosyddion perfformiad i leihau digartrefedd.	Atal digartrefedd yn cael ei gydnabod fel cyfrifoldeb corfforaethol.  Ymrwymiad rhanddeiliaid i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol i drechu digartrefedd
<p><b>Amcan 3 Gwella trefniadau gweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i hwyluso cydweithrediad yn unol ag Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014</b></p> <p>3.1 Ei gwneud yn bosibl cael cysondeb a gwella prosesau presennol e.e. darparu gwybodaeth amserol, rhannu asesiadau risg a chynnig cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Lluio cytundebau ffurfiol a/neu ddangosyddion perfformiad allweddol y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arnynt.</p> <p>3.2. Cynyddu i'r eithaf y llety a'r cymorth sydd ar gael i leddfu digartrefedd e.e. argaeledd mwy o lety a rennir a mwy o dai â chymorth i bobl ag anghenion cymhleth</p>				

ATODIAD C

3.1		<p>Mawrth 2019 – yn barhaus</p> <p>Misol yn barhaus</p> <p>Ebrill 2020</p>	<p>Parhau â chyfarfod grŵp Cofrestr Tai Gyffredin gweithredol misol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i adnabod cyfleoedd cydweithredol tuag at drechu digartrefedd</p> <p>Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu opsiynau o ran llety â chymorth</p> <p>Adolygu, Arfarnu a diwygio os yw'n ofynnol Bolisi Dyrannu Tai Cymdeithasol y Cyngor gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n rhan o'r Gofrestr Tai Gyffredin</p> <p>Gweithredu system rheoli achosion newydd a rennir rhwng y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'r Gofrestr Tai Gyffredin.</p>	<p>Dull cydweithredol o leddfu digartrefedd.</p> <p>Cytundebau yn eu lle sy'n ymrwymo i ddyrannu llety'n effeithiol.</p> <p>Rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda Phartneriaid o blith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i atal digartrefedd</p>
3.2		Ebrill 2020 – ymlaen	Ymgysylltu â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ymchwilio i ddichonoldeb llety a rennir ar gyfer pobl dan 35 oed	Cynyddu'r opsiynau llety addas i ateb y galw.
<p><b>4. Gwella'r modd y mae pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael mynediad at wasanaethau.</b></p> <p>4.1 Hybu gwasanaethau 'brysbennu' presennol gan ddefnyddio dulliau ar-lein a thros y ffôn i'w gwneud yn bosibl rhoi gwell gwybodaeth a chyngor yn y pwynt cyswllt cyntaf.</p> <p>4.2 Hwyluso amgylchedd i drafodaethau sensitif neu gyfrinachol ddigwydd a gostwng y nifer o weithiau y mae'n rhaid i bobl rannu eu storïau personol a thrawmatig, cyn y gallant gael mynediad at y gwasanaeth y mae'i angen arnynt</p> <p>4.4 Ystyried cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau statudol ac anstatudol neu eu rheoli ar y cyd, sy'n adlewyrchu'r heriau eang, cymhleth a chyd-bresennol y mae rhai pobl digartref yn eu hwynebu.</p>				
4.1 - 4.4		Ebrill 2020	Rhoi system rheoli achosion newydd ar waith a fydd yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ymgeiswyr ar-lein, yn caniatáu ceisiadau ar-lein a fydd yn galluogi cwsmeriaid i ryngweithio'n fwy effeithlon â'r Adran Datrysiaid Tai.	Rhoi cyngor a mynediad at y gwasanaeth digartrefedd ar-lein. Mae'n ei gwneud yn bosibl ymyrryd yn gynnar ac atal.

5. Gwella hygyrchedd ac argaeledd opsiynau cymorth a llety i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau.				
5.1 Sicrhau bod opsiynau llety addas ar gael i bobl â hanes o heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd a hanes o droseddu difrifol, gan gynnwys hanes o losgi bwriadol a throeddau rhyw.				
5.2 Cynyddu i'r eithaf y defnydd o ffrydiau ariannu presennol, i gyflawni opsiynau cymorth a llety wedi'u haddasu at ofynion unigol, i atal digartrefedd				
5.1		Mawrth 2020 ymlaen	<p>Adolygu anghenion llety â chymorth ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.</p> <p>Cydweithio â gwasanaethau iechyd meddwl i ddatblygu gwasanaeth cymorth cymunedol ar gyfer unigolion â materion iechyd meddwl a sylweddau. Adnabod cyllid ac adnoddau addas</p> <p>Rhoi canfyddiadau adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl a gomisiynwyd yn annibynnol ar waith.</p>	<p>Cynyddu opsiynau llety addas i ddiwallu anghenion cymhleth</p> <p>Ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd/dibyniaeth ar wasanaethau statudol.</p> <p>Gwella gwasanaethau i'r rhai sy'n profi materion iechyd meddwl.</p>
5.2		<p>Mawrth 2020</p> <p>Misol yn barhaus</p> <p>Ebrill 2020 – yn barhaus</p>	<p>Ymgysylltu â landlordiaid y sector rhentu preifat i ddatblygu mwy o lety a rennir</p> <p>Ymgysylltu â landlordiaid preifat i ddefnyddio'r Grant Cartrefi Gwag i ddechrau defnyddio eiddo gwag eto.</p> <p>Cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd cyllid grant i roi gwasanaeth cymorth ar waith ar gyfer y Sector Rhentu Preifat i atal digartrefedd o dai landlordiaid y sector preifat</p>	Cynyddu'r opsiynau llety addas a fforddiadwy
5.2		<p>Mawrth 2019 – ymlaen</p> <p>Mawrth 2020</p>	<p>Cydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i dendro am wasanaethau gan ddefnyddio cyllid digartrefedd ieuencid</p> <p>Monitro'r modd y dyrennir cyllid y Grant Cefnogi Pobl/Grant Cymorth Tai i sicrhau ei fod yn cyfrannu at wasanaethau digartrefedd</p>	<p>Gwella gwasanaethau atal digartrefedd ar gyfer pobl ifanc</p> <p>Gwasanaethau digonol ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigolion digartref.</p>
6. Cefnogi Pobl sy'n Cysgu Allan a mynd i'r afael â'r angen i gysgu allan				

ATODIAD C

6.1 Datblygu dull amlasiantaeth o drechu digartrefedd stryd				
6.2 Datblygu gwasanaethau cymorth a llety addas ar gyfer pobl sy'n cysgu allan				
6.3 Cynnig trefniadau i amddiffyn pobl sy'n cysgu allan				
6.1		<p>Mawrth 2020</p> <p>Mai 2019</p> <p>Mawrth 2020</p>	<p>Rhoi Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd Stryd Llywodraeth Cymru ar waith</p> <p>Gweithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gyfrannu at grŵp llywio amlasiantaeth i gytuno ar gynlluniau gweithredu cymorth ar gyfer y rhai sy'n cysgu allan ac yn agored i niwed</p> <p>Ymgynghori â darparwyr cymorth a statudol i ystyried datblygu gwasanaeth cymorth dydd ar gyfer pobl sy'n cysgu allan. Wedi hynny, os yw'n ddichonadwy, defnyddio cyllid Atal Digartrefedd a chyllid Cefnogi Pobl i roi gwasanaeth o'r fath ar waith</p>	<p>Canfod lleoliad pobl sy'n cysgu allan er mwyn targedu cymorth</p> <p>Cynlluniau cymorth cadarn yn eu lle ar gyfer pobl sy'n cysgu allan</p> <p>Gwella hygyrchedd cymorth i bobl sy'n cysgu allan</p>
6.2		<p>Ionawr 2019 - ymlaen</p> <p>Ionawr 2020</p>	<p>Gan weithio gyda phartneriaid yn y 3ydd sector defnyddio cyllid y Grant Cymorth Tai a chyllid Atal Digartrefedd i ddatblygu contract Tai yn Gyntaf sydd wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer pobl sy'n cysgu allan ers tro byd</p> <p>Defnyddio cyllid Cefnogi Pobl a grant Atal Digartrefedd i gynnal ymarfer tendro ar gyfer darparu llety argyfwng a swyddog cymorth</p>	<p>Cynyddu'r opsiynau llety a chymorth.</p> <p>Creu llwybr i lety annibynnol/llety â chymorth.</p>
6.3		<p>Medi 2019 yn cael ei adolygu'n flynyddol</p>	<p>Diwygio'r ddarpariaeth tywydd oer flynyddol ar gyfer pobl sy'n cysgu allan a rhoi darpariaeth Gaeaf ar waith ar gyfer pobl ddigartref hirsefydlog</p>	<p>Cynllun tywydd oer i gynnig llety a chymorth i bobl sy'n cysgu allan</p>